# GWELLIANNAU I'R RHWYDWAITH TEITHIO LLESOL

## LLEOLIAD: TRINITY ROAD A PHARC Y GANOLFAN GYMUNEDOL

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**Trosolwg o syniadau dyluniadau ar gyfer Trinity Road:**

- Ystyried diwygio / lleihau lled y droedffordd ddwyreiniol bresennol i droedffordd o 1.2 metr o led, adlinio'r cerbytffordd a chreu llwybr cyd-ddefnyddio 2.4 metr o led.
- Cynyddu arwynebedd y briffordd yn amodol ar ennill tir gan drydydd parti i gadw'r lôn gerbydau a'r troedffyrdd dwyreiniol gan gadw'r lled presennol a chynyddu'r cyfleuster gorllewinol yn unol â chanllawiau teithio llesol.
- Mae'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd yn cynnwys:
  - Cadw lled y gerbytffordd bresennol sydd ei hangen i 4.8 metr (gweler cynllun 1)
  - Lleihau'r gerbytffordd i 4.1 metr (gweler cynllun 2)
- Trefniant stryd dawel ar y gerbytffordd*

**Fel rhan o'r gwaith parhaus o ddatblygu'r llwybr, mae datrysiadau traffig cymysg (strydoedd tawel) yn cael eu cyflwyno fel dewisiadau amgen i'w hystyried ymhellach. Gall beicio ar y gerbytffordd fod yn dderbyniol (yn dibynnu ar ddata traffig) os cyflwynir mesurau ychwanegol, megis mesur i ostegu cyflymder a nodweddion diogelwch gwell.*

**Noder bod y dyluniadau hyn yn dal i fod yn y camau rhagarweiniol ac yn destun mireinio trwy drafodaethau, ymgysylltu, ac adborth parhaus.**

### Cynllun 1. Ailwampio gofod y briffordd.




- Byddai llwybr cyd-ddefnyddio ychwanegol yn welliant; fodd bynnag, byddai lled y droedffordd gyferbyn yn cael ei leihau ymhellach a fyddai'n llacio safonau ymhellach.
- Byddai'r gwrthdaro presennol â blaenau tai / dreif i eiddo yn parhau, ond byddai'n cael ei liniaru yn sgil llunio llwybr cyd-ddefnyddio lletach.
- Ni chaiff natur di-dor y llwybr ei pheryglu; ni fydd rhaid i ddefnyddwyr di-fodur adael cyfleuster oddi ar y gerbytffordd ac mae'r ddarpariaeth feicio oddi ar y ffordd sy'n darparu mwy o gysur a diogelwch.
- Bydd lled y gerbytffordd yn parhau i fod yn 4.8 metr yn unol â safon o'r Llawlyfr Strydoedd.




### Cynllun 2. Ehangu gofod y briffordd




- Byddai llwybr cyd-ddefnyddio ychwanegol yn welliant; fodd bynnag, byddai angen trafod a negodi gofynion tir gyda thrydydd parti.
- Ni fyddai safonau presennol yn cael eu peryglu i gyflawni'r gwelliant.
- Byddai'r gwrthdaro presennol â blaenau tai / dreif i eiddo yn parhau, ond byddai'n cael ei liniaru yn sgil llunio llwybr cyd-ddefnyddio lletach.
- Ni chaiff natur di-dor y llwybr ei pheryglu; ni fydd rhaid i ddefnyddwyr di-fodur adael cyfleuster oddi ar y gerbytffordd ac mae'r ddarpariaeth feicio oddi ar y ffordd sy'n darparu mwy o gysur a diogelwch.
- Bydd lled y gerbytffordd wedi'i leihau i 4.1 metr sy'n dal i fod yn unol â chanllawiau'r Llawlyfr Strydoedd.




### Cynlluniau at ddibenion esbonio yn unig







### Cynlluniau at ddibenion esbonio yn unig




**Manteision allweddol a chanlyniadau'r dyluniad:**

- **Amgylchedd gwell ar gyfer cerddwyr:** Mae'r cynllun yn gwella gofod a hygyrchedd i gerddwyr drwy gynyddu'r ardal gyffredinol y gellir ei defnyddio, gan gynnwys arwynebau di-dor a gwastad sydd wedi'u lledu i greu amgylchedd cerdded mwy cynhwysol.
- **Darpariaeth feicio ddiogel yn y cyd-destun:** Mae'n cyflwyno seilwaith beicio pwrpasol sydd wedi'i gynllunio i fod yn ddealladwy ac yn ddiogel o fewn y cyd-destun lleol, gan gyd-fynd â chanllawiau dylunio teithio llesol cyfredol.
- **Cyfleusterau beicio pwrpasol newydd:** Mae'r prosiect yn darparu darpariaeth feicio bwrpasol lle nad oedd unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn bodoli eisoes, gan fynd i'r afael â bylchau yn y rhwydwaith presennol a chefnogi nodau newid dulliau teithio.
- **Gwella diogelwch defnyddwyr wrth groesfannau:** Mae croesfannau nas rheolir lle mae traffig wedi'i ostegu wedi'u hintegreiddio'n strategol i gynorthwyo symudiad cerddwyr a chynyddu diogelwch, yn enwedig ar lwybrau dymunol allweddol.
- **Llai o wrthdaro rhwng defnyddwyr:** Drwy hyrwyddo ymddygiad cyd-ddefnydd priodol a gofodau amlwg, mae'r dyluniad yn helpu i leihau gwrthdaro rhwng cerddwyr a beicwyr.
- **Cymorth i feicwyr bregus a beicwyr sy'n llai hyderus:** Mae'r seilwaith yn darparu ar gyfer defnyddwyr sy'n llai cyfforddus yn rhannu'r gerbytffordd, megis plant, oedolion hŷn, ac unigolion sy'n beicio fel eu dull o deithio gan gyd-fynd â'r egwyddorion cynhwysiant a nodir yn y Ddeddf Teithio Llesol.

### Cynllun 3. Cysylltedd stryd dawel.




- Ystyrir cael gwared ar y cyfleuster llwybr cyd-ddefnyddio presennol oherwydd nad yw'n bodloni lefel bresennol y canllawiau teithio llesol, dychwelyd y troedffordd i'w defnyddio gan gerddwyr yn unig a budd o ganlyniad i gael gwared ar feicio ar hyd y llwybr cyd-ddefnyddio cul.
- Bydd beicwyr yn gwrthdaro â thraffig priffyrdd, er mewn amgylchedd stryd dawel; rhaid ystyried ffyrdd i ddefnyddwyr ddod o hyd i'w ffordd a mynediad yn ôl i'r cyfleusterau sydd oddi ar y gerbytffordd.
- Bydd natur di-dor y llwybr yn cael ei pheryglu; bydd rhaid i ddefnyddwyr di-fodur adael cyfleuster oddi ar y gerbytffordd, ac mae'r ddarpariaeth feicio ar y ffordd (gan leihau cysur a diogelwch).
- Bydd lled y gerbytffordd yn parhau i fod 4.8 metr yn unol â safon o'r Llawlyfr Strydoedd.
- Byddai gwerth am arian yn gadarnhaol i'r cysylltiad gwell ar hyd y rhan hon.

